



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 2941 (Cy.282)

2002 No. 2941 (W.282)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Gweithrediaeth)
(Cyflawni Swyddogaethau)
(Diwygio) (Cymru) 2002**

**The Local Authorities (Executive
Arrangements) (Discharge of
Functions) (Amendment) (Wales)
Regulations 2002**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002, a wnaed o dan Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, gwnaed darpariaeth sy'n galluogi awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth i wneud trefniadau ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau gweithrediaeth gan bwyllgorau ardal, gweithrediaeth awdurdod lleol arall neu ar y cyd ag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill drwy gyd-bwyllgor.

Mae Rheoliad 12(1) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002 yn darparu mai dim ond aelod o'r weithrediaeth y gellir ei benodi i gyd-bwyllgor sy'n arfer swyddogaethau gweithrediaeth.

Er mwyn sicrhau y caniateir i weithrediaethau awdurdod lleol benodi naill ai aelodau o'r awdurdod lleol nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth neu swyddogion yr awdurdod i wasanaethu ar gyd-bwyllgorau ar eu rhan, diwygir rheoliad 12(1) yn unol â hynny.

The Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Wales) Regulations 2002, made under Part II of the Local Government Act 2000, made provision which enables a local authority in Wales operating executive arrangements to make arrangements for the discharge of its executive functions by area committees, the executive of another local authority or jointly with one or more other local authorities by way of joint committee.

Regulation 12(1) of the Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Wales) Regulations 2002 provides that only a member of the executive can be appointed to a joint committee which exercises executive functions.

In order to ensure that local authority executives are permitted to appoint either members of the local authority who are not executive members or officers of the authority to serve on joint committees on their behalf, regulation 12(1) is amended accordingly.

2002 Rhif 2941 (Cy.282)

2002 No. 2941 (W.282)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Gweithrediaeth)
(Cyflawni Swyddogaethau)
(Diwygio) (Cymru) 2002**

**The Local Authorities (Executive
Arrangements) (Discharge of
Functions) (Amendment) (Wales)
Regulations 2002**

Wedi'u gwneud *27 Tachwedd 2002*
Yn dod i rym *20 Rhagfyr 2002*

Made *27th November 2002*
Coming into force *20th December 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 18(1) a (2), 19(1), (2), (4), (5) a (6), 20(1) a (2), 105(2) a 106(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(a):-

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred upon it by sections 18(1) and (2), 19(1), (2), (4), (5) and (6), 20(1) and (2), 105(2) and 106(1) and (2) of the Local Government Act 2000(a):

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

Name, commencement, interpretation and application

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 20 Rhagfyr 2002.

1.-(1) These Regulations are called the Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Amendment) (Wales) Regulations 2002 and shall come into force on 20th December 2002.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Rheoliadau" yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002(b).

(2) In these Regulations "the principal Regulations" means the Local Authorities (Executive Arrangements) (Discharge of Functions) (Wales) Regulations 2002(b).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yng Nghymru yn unig.

(3) These Regulations apply in Wales only.

Diwygio'r prif Reoliadau

Amendment of principal Regulations

2. Yn lle paragraff (1) o reoliad 12 o'r prif Reoliadau (aelodau cyd-bwyllgorau) rhowch -

2. For paragraph (1) of regulation 12 of the principal Regulations (members of joint committees) substitute -

"(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) isod, ni fydd y gofynion am gydbwysedd gwleidyddol yn gymwys i benodiadau a wneir i gyd-bwyllgor yn unol â rheoliad 11 uchod gan weithrediaeth, aelod o weithrediaeth neu bwyllgor gweithrediaeth."

"(1) Subject to paragraph (3) below, the political balance requirements shall not apply to appointments made to a joint committee in accordance with regulation 11 above by an executive, a member of an executive or a committee of an executive."

(a) 2000 p.22.

(b) O.S. 2002/802 (Cy.87).

(a) 2000 c.22.

(b) S.I. 2002/802 (W.87).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

27 Tachwedd 2002

27th November 2002

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 2941 (Cy.282)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Rheoliadau Awdurdodau Lleol
(Trefniadau Gweithrediaeth)
(Cyflawni Swyddogaethau)
(Diwygio) (Cymru) 2002

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 2941 (W.282)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Local Authorities (Executive
Arrangements) (Discharge of
Functions) (Amendment) (Wales)
Regulations 2002

© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£1.75

W168/12/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090594-6



9 780110 905945